

## CYNGOR BRO LLANGELER-26:01:2015

Cofnodion Cyfarfod Nos Lun Ionawr 26ain 2015 yn Neuadd y Ddraig Goch, Felindre, Llandysul am 7.30y.h.

1. **01/15 PRESENNOL:** Cyngorwyr: Adrian Thomas[Cadeirydd], Jamie Ayres, John Crossley, Delyth Evans, Christopher Jones, Nesta Jones, Mary Phillips, Marc Rees, Dilwyn Smith. Clerc – Stella Jones  
**HEFYD YN BRESENNOL:** Cyng.Sir - K Howell, Cyfieithydd.  
Cyddymdeimlwyd â'r Cyng C Roberts ar farwolaeth ei mam yng nghyfraith bore'r cyfarfod, Clerc i anfon carden cyddymdeimlad.
2. **01/15 HEDDLU:** Ymddiheiriad. Clerc i roi gwybod i'r heddlu fod parcio ar y llinellau melyn ger ysgol Penboyr. Mae fan yn parcio ar yr hewl tu allan i Pleasant View, Waungilwen yn beryglus i yrwyr arall. Nifer o goed yn hongian drosodd ar y brif ffordd o Rhydfach i Bentrecwrt – Cyng K Howell i ddelio a'r mater hwn.
3. **01/15 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. I Davies, B Jones, C Roberts, J Wigley.
4. **01/15 COFNODION :** derbyniwyd cofnodion Cyfarfod Misol Tachwedd 24ain 2014 a'u cael yn gywir.  
Cynigydd – Cyng. D Evans  
Eilydd – Cyng. C Jones
5. **01/15 DATGANIADAU DIDDORDEB :-** Dim
6. **01/15 MATERION YN CODI :**  
12.i.01/14. b) 'Audio Trail' – doedd Cyng C Roberts ddim yn medru bod yn y cyfarfod i roi diweddariad.  
12.v.05/14 Arwydd Cyflymder 30mya ym Mhentrecagal – Clerc wedi cael gwybodaeth bydd y gwaith yn cael ei gwblhau cyn diwedd mis Mawrth.  
Llinellau melyn sgwâr Gât, Felindre – gwaith wedi ei gwblhau.  
12.ii.11/14 a) Bin Spwriel i'r Arosfan Bws – dwedodd y Clerc bod y Cyngor Sir wedi addo un cyn diwedd Ionawr.  
b) Llwybr ger Square Hall – dwedodd y Clerc ei bod wedi siarad a Martin Murray a 'i bod wedi ymweld a'r safle o'r blaen ac mi fyddai yn anfon y ceidwaid allan ar ymweliad eto.
7. **01/15 GOHEBIAETH:**
  - i. CSG – Adroddiad Cyddymffurfio â Chod Ymddygiad yr Aelodau yn dweud taw ond dau gwrs yn y Cyngor Sir a gynhelir.
  - ii. CSG – Adborth i Arwyddion i Yrwyr (DVAS) nodi bod y Cyngor Sir yn barod i dalu am un arwydd ychwanegol tu allan i Ysgol Brynsaron
  - iii. e-bost – Lesley Parker – newid enw parth i .cymru – cytunwyd i newid yr enw parth i .cymru yn lle .org.uk
  - iv. e-bost – CSG – Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin – yn nodi bod y cynllun wedi ei fabwysiadu
  - v. e-bost – CSG – Adran 137 Cyfyngiad - 2015-2016 - *cylchlythyrwyd a nodwyd*
  - vi. e-bost – *Parish Online* – newyddion diweddaraf, cyngorion gorau ac offer newydd – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
  - vii. e-bost – Age Cymru Sir Gâr – gwhoddiad i lansio swyddfa newydd – *nodwyd*
  - viii. e-bost – Cyfarfod Pwyllgor Coffa T Llew Jones 29/01/15 – *cylchlythyrwyd i Cyng B a N Jones*
  - ix. e-bost - Anne Williams Swyddog Cefnogi SCH&T – TCC – *cylchlythyrwyd a nodwyd*
  - x. e-bost – CSG – Mike Jacob – yn nodi bydd gostwng y cyflymder ym Mhentrecagal yn cael ei wneud cyn diwedd Mawrth.
  - xi. e-bost – CSG – Andrew Morgan – yn nodi bydd y gwaith ar y DVAS yn cael ei wneud cyn diwedd y flwyddyn ariannol hon.
  - xii. CSG – Rheoliadau Awdurdodau Lleol(cyfrif sail treth y Cyngor)(Cymru)1995 - £1,450.63 i Band D a bandiau eraill ar gyfer 2015/16
  - xiii. CSG – Tystysgrif i Dangos Gwerthfawrogiad i gydnabod cyfraniad pwysig i Ymgyrch Byddwch Wyrdd a Byddwch Lân
  - xiv. ULIC – Cynllun Trafndiaeth Cenedlaethol 2015 - Drafft – *cylchlythyrwyd a nodwyd*  
<http://wales.gov.uk/consultations/transport/draft-national-transport-plan/?lang=en>
  - xv. Western Power Distribution – Tystysgrif Trydan difedr ar gyfer Golau Nadolig ym Mhont Tweli
  - xvi. e-bost – CSG – Palmant uno Saron a Rhos – CSG yn dweud bod y gwaith yn mynd i gostio dros £83 mil a oedd rhyw ffordd y gallai'r Cyngor Cymuned dalu tuag at hyn – cytunwyd na fyddai hyn yn bosibl..
  - xvii. e-bost - CSG – Seminar Cynllunio - Chwefror 2015 – Cyng J Wigley yn mynychu.
  - xviii. e-bost – CSG - Rheoli lleoedd chwarae, parciau a llecynnau amwynder yn y dyfodol.
  - xix. e-bost – Gwasanaeth Newydd 'Parcio a Theithio' yn gwasanaethu Heol Spilman a'r Ysbyty yn cychwyn ar 9/2/15.
  - xx. e-bost – CSG - Martin Murray - llwybr 12/120 o Pwllmarl i Square Hall – *deliwyd yn Materion yn Codi*
  - xxi. e-bost – Bwletin Rhanbarthol Simon Thomas AC – *cylchlythyrwyd*
  - xxii. GIG Cymru – Sgwrs Iach yn Neuadd y Dref Hendy-gwyn ar Daf ar 12/02/2015 rhwng 3 a 5yp
  - xxiii. CSG – Tystysgrif i ddangos Gwerthfawrogiad er mwyn cydnabod cyfraniad pwysig i Ymgyrch Byddwch Wyrdd a Byddwch Lân
  - xxiv.e-bost - ULIC – Penodi Cadeirydd & Aelodau i Fforwm yr Ucheldir – *cylchlythyrwyd*
  - xxv. e-bost – CC– Ymchwiliad i Ystyried Pwerau: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – *cylchlythyrwyd*

## **8. 01/15 CYNLLUNIO**

**Apêl :-** Apêl Penderfyniad Cynllunio gan yr Arolygiaeth Cynllunio – APP/M6825/X/14/2220344

Llys Helyg, Drefach Felindre, Llandysul, Carmarthenshire SA44 5YL

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad

**Caniatâd**

W/30899 – newidiadau arfaethedig i'r Cynllun fel a ganiatwyd yng nghais cynllunio W/28516 YN Hospis Skanda Vale, Saron, SA44 5DY

W/29735 – *Keith Lowry* – adeiladwaith o cuddyglau i dda godro ar dir yn Gilwen, CNE i KR a SB Lowry

W/30995 – Mr&Mrs RJ & MA Roberts, Brynhyfryd Cwmpengraig SA44 5XS – *proposed erection of steel/portal frame building, part equestrian and part agricultural use.*

**Cais Ymgynghori llawn**

W/31297 – Mr&Mrs Paul Gurney, Plot adjacent to Courtyard House, The Courtyard, Dolwerdd, Pentrecagal, SA38 9HX – *dim barn*

W/31410 – Mr&Mrs James, 1 Heol y Dderwen, Pont Tweli SA44 4RW – Cyntedd i ffrynt yr eiddo – *dim gwrthwynebiad*

W/31431 – Mr John Griffiths, land adjoining Dolwerdd, Drefach-Velindre SA44 5UG – codi amodau 5-7 ar W/248639 (cartref cynaliadwy) ac amrywiaeth o amod 3(estyniad amser) – *dim barn*

W/31480 – Mr David Jones, tir ger The Old Post Office, – tystysgrif o gyfreithlondeb am ddefnydd presennol i ddechreuad gwaith perthnasol ar ganiatâd cynllunio W/22157(annedd newydd) – *dim barn*

**9. 01/15 MATERION ARIANNOL**

**a. Anfonebau**

- i. TRYWYDD – cyfieithu yng nghyfarfod 26/01/2015 .....£61.20
- ii. HIRIO NEUADD Y DDRAIG GOCH – cyfarfod 26/01/15 .....£8..25  
[ caniatad i dalu'r ddau uchod fel daw'r taleb fewn ]
- iii. PARISH ON LINE .....£67.20
- iv. EMYR JONES[atgyweirio braced golau Nadolig] .....£160.87

Arian yn y Banc ar 12/01/2015.....£28,215.62

Costau Goleuo Llwybrau ar gyfer 2015/16 – Ynni £4,798.37, Cynnal a Chadw £10,703.40 TAW £3,100.35 = £18,602.12

**b. Credyd**

- Arian am y torchau .....£36.00
- Ad daliad am grant i wneud yr Audio Trail ..... £5,922.65
- Praesept .....£9,928.00

**c. Cais an Gefnogaeth Ariannol**

Teenage Cancer Trust Wales – *nodwyd*

**ch. Praesept**

Cytunwyd i godi'r praesept gyda 2%

**10. 01/15 ADRODDIAD PWYLLGOR**

Fforwm – mynychodd Cyng J Crossley y cyfarfod, soniodd am y toriadau y byddai'r Cyngor Sir yn gorfod gwneud yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod

**11. 01/15 MATERION ANGEN TRAFODAETH**

- i. Cadwyn y Cadeirydd – Cyng J Wigley ddim yn bresennol yn y cyfarfod.

**12. 01/15 SYLWADAU'R CYNGHORWYR:**

- i. Cyng M Phillips – a) a oedd unrhyw sôn am beth oedd i ddigwydd i safle adeiladu ochr arall y ffordd i Heol y Dderwen – Cyng K Howell i wneud ymholiadau  
b) ceir yn teithio'n gyflym iawn o Jewson am Half Moon – Cyng K Howell i ddelio a'r mater.
- ii. Cyng N Jones – a) nododd bod yr arwydd VAS wrth fynd mewn i Pentrecwrt o ochr rhiw Beili ddim yn gweithio – Clerc i gysylltu a'r Cyngor Sir
- iii. Cyng C Jones – dwedodd bod golau stryd ger Maes yr Ywen wedi cael ei godi o'r safle ac heb gael ei roi nôl – Clerc i wneud ymholiadau
- iv. Cyng A Thomas – dwedodd y bydd Cinio Blynyddol y Cyngor yn cael ei gynnal ar Ebrill 11eg yng Ngwesty'r Porth, Llandysul.

**CYFARFOD NESAF**

Cynhelir y Cyfarfod Misol nesaf Nos Lun, Chwefror 23ain 2015, am 7.30y.h yn Neuadd yr Eglwys Penboyr, Felindre, Llandysul

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 y.h

\_\_\_\_\_ Cadeirydd

\_\_\_\_\_ Dyddiad

